CBAC
WJEC

# CYNLLLUN MARCIO TGAU

## CYMRAEG AIL IAITH CYMHWYSOL

## HAF 2012

© WJEC CBAC Ltd.

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2012 TGAU CYMRAEG AIL IAITH CYMHWYSOL. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

**Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.**

© WJEC CBAC Ltd.

**C.1 (Sylfaenol)** **15 marc**

**(i)** Rhaid i chi lenwi manylion y sioe ar gyfer bas-ddata. 1 marc yr un = **4 marc**

| | |
|---|---|
| **CYFEIRIAD Y SIOE** | **(Maes y Sioe) Llanelwedd, Powys, LD2 3SY (*Rhaid cael o leiaf 2)*** |
| **RHIF FFÔN** | **01982 553683** |
| **GWEFAN** | **www.rwas.co.uk** |
| **DYDDIAD SIOE 2012** | **Gorffennaf (23 - 26 / 23-26/7/12)** |

**(ii)** Dewis lluniau. 1 marc yr un = **3 marc**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| ✓ neu rif | ✓ neu rif | | | ✓ neu rif |

**(iii)** Llenwi poster 1 marc yr un = **3 marc**

- Tachwedd 26 (*Rhaid cael y mis a'r dyddiad)*
- Tachwedd 27 (*Rhaid cael y mis a'r dyddiad)*
- 8 o'r gloch / 8.00

**(iv)** Neges e-bost **= 5 marc (2 + ✓ = 3)**

(i) Aberystwyth = 1 marc
(ii) 230,000 = 1 marc

**Mynegiant**
3 marc = 2 frawddeg gywir
2 farc = 1 brawddeg gywir

© WJEC CBAC Ltd.

**C.2 (Sylfaenol)**

Mae Gyrfa Cymru yn trefnu profiad gwaith i'r ysgol. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen ar gyfer y swyddog gyrfaoedd. **15 marc**

**Cynnwys 8 marc**

- Dim clod am enw
- **Dyddiad Geni –** y mis fel gair **(1 marc)** Does dim rhaid cael blwyddyn – mis a rhif yn dderbyniol e.e. Mai 24
- **Enw'r Ysgol –** enw'r ysgol yn Gymraeg **(1 marc)**
- **Cyfeiriad yr ysgol –** lleoliad yr ysgol yn Gymraeg e.e. Caerdydd, Fflint, Sir Benfro **(1 marc)** Angen mwy na lleoliad yn unig
- **Hoff Bwnc Ysgol –** unrhyw bwnc ysgol **(1 marc)**
- **Hobi –** unrhyw hobi **(1 marc)** Rhaid cael ymgais i sillafu'r hobi yn Gymraeg
- **Oes sgiliau gyda chi? –** unrhyw sgiliau priodol e.e. tystysgrif nofio/gallu siarad Cymraeg **(1 marc)**
- **Ble hoffech chi fynd ar brofiad gwaith? –** unrhyw leoliad synhwyrol e.e. canolfan hamdden, ysgol gynradd, banc **(1 marc)** a rheswm synhwyrol e.e achos rydw i'n hoffi plant **(1 marc)**
- **Llofnod –** dim marc

**Mynegiant 7 marc**

**2 farc** am bob brawddeg gywir (**hyd at 6 marc**). Gellir gwobrwyo hyd at 4 marc am yr un gystrawen e.e. dw i'n ... Rhaid cael cystrawen arall sy'n wahanol er mwyn gwobrwyo 6 marc
**1 marc** am ymadrodd estynedig (+berf)/ mynegi barn perthnasol. Ymadroddion megis helpu staff, dysgu sgiliau newydd, cael profiad a gwneud ffrindiau.

Does dim rhaid cyfyngu'r marciau am fynegiant i'r adrannau *.
Gwobrwyir y defnydd o frawddegau llawn ac amrywiaeth o gystrawennau wrth gyfleu'r wybodaeth berthnasol e.e. Fy hoff bwnc ysgol …/ Rydw i'n gallu …./ Hoffwn i …

Os nad oes brawddegau i'w gwobrwyo, gellir rhoi hyd at 2 farc am sillafu.

© WJEC CBAC Ltd.

**C.3 (Sylfaenol)**
**C.1 (Uwch)** **20 marc**

(i) Llenwi ffurflen – **12 marc (1 marc am bob ateb cywir)**

| | | |
|---|---|---|
| ENW'R YSGOL | Ysgol Bryn Melyn | Ysgol Cwm Bach |
| RHIF FFÔN YR YSGOL | 01783 627338 | 01783 637738 |
| ENW CYSWLLT | Hywel Davies [1] | Marian Price [1] |
| DYDDIAD Y PANTOMEIM | Hydref un deg pedwar / Hydref 14 [1] | Hydref dau ddeg un / Hydref 21 [1] |
| AMSER Y PANTOMEIM | 11.00 / un ar ddeg o'r gloch [1] | 1.15 / chwarter wedi un [1] |
| SAWL TOCYN? | 40 / pedwar deg [1] | 75 / saith deg pump [1] |
| OES CWESTIWN GYDA'R YSGOL? | Oes ramp? / Oes help anabl? [1] | Faint ydy cost tocyn staff? [1] |
| TEITHIO? | Bws (mawr) / Cwmni Bysys y Bryn [1] | Cerdded / dim eisiau bws [1] |

(ii) Nodiadau am safon y Gymraeg – **8 marc**

**Cynnwys – 4 marc**

| | |
|---|---|
| Ysgol Bryn Melyn | • Ysgol Gymraeg<br>• Pawb yn dysgu Cymraeg<br>• Cymraeg yn boblogaidd yn yr ysgol<br>(unrhyw 2 bwynt = 1 marc yr un) |
| Ysgol Cwm Bach | • Wedi dechrau Clwb Drama Cymraeg (ym mis Medi)<br>• Wedi dechrau Clwb Cymraeg<br>• Plant yn mwynhau siarad Cymraeg<br>• Deg o'r plant yn siarad Cymraeg gyda'r teulu / yn y cartref<br>• Cymraeg gyda'r teulu yn y cartref<br>(unrhyw 2 bwynt = 1 marc yr un) |

**Mynegiant**
Hyd at 4 marc (adran ii yn unig)

2 farc am bob brawddeg gywir.
1 marc am ymadrodd yn cynnwys berf/ mynegi barn perthnasol.
**Ni ellir gwobrwyo marciau am fynegiant oni bai bod y cynnwys yn gywir.**
**Os nad oes brawddegau i'w gwobrwyo gellir rhoi 1 marc am ymadrodd yn cynnwys berf/ mynegi barn perthnasol.**

© WJEC CBAC Ltd.

**C.4 (Sylfaenol)**
**C.2 (Uwch)** **20 marc**

**Rhan A: 10 marc (1 marc yr un)**

1. ?
2. (Nos) Wener
3. dau
4. hanner
5. costio/ gostio
6. punt
7. copi/ copïau
8. oes
9. Helen
10. ar

Gellir derbyn yr atebion cywir mewn unrhyw un o’r 10 blwch.

**Rhan B: Ysgrifennu e-bost – 10 marc**

**Cynnwys (5 marc)**

Dylid cynnwys y canlynol:

- eich enw a pham rydych chi'n ysgrifennu **[1]** enw ac un ffaith arall megis cyfeiriad neu waith **[1]** enw yn unig **[0]**
- manylion y parti e.e. dyddiad, amser, nifer o bobl **[1]**
- problemau'r noson x 2 **[2]**
- unrhywbeth arall sy'n berthnasol e.e. arian nôl, diolch am eich amser **[1]** Rhaid rhoi arian nôl mewn brawddeg. Ni ellir dyfarnu marc am yr ymadrodd yn unig.

**Mynegiant (5 marc)**

5 - 4 Cyfathrebu hynod o lwyddiannus. Rhaid cael o leiaf 4 brawddeg gywir gan ddefnyddio o leiaf 2 amser gwahanol o’r ferf. Ni ellir gwobrwyo’r marciau hyn oni bai bod cyfeiriad at broblemau’r noson.

3 – 2 Ymatebion pwrpasol a diddorol. Rhaid cael o leiaf 2 frawddeg gywir.

1 Ymdrech i gyfathrebu, ond geirfa gyfyngedig iawn.

0 Dim i'w wobrwyo.

**Ni ellir gwobrwyo unrhyw farciau am gopio o Rhan A**
**Ni ellir gwobrwyo marc mynegiant sy’n uwch na’r marc cynnwys**

© WJEC CBAC Ltd.

**C.3 (Uwch)** **30 marc**

(i) Llenwi cronfa-ddata **14 marc**

| | | |
|---|---|---|
| CYFEIRIAD YR YSGOL | **Rhodfa Shakespeare, Llundain, NW10 8NG**<br>**(*Rhaid cael o leiaf 2)*** | **(1)** |
| RHIF FFÔN / RHIF FFACS | **(02089) 653585** | **(1)** |
| E-BOST | **pennaethcymryllundain@hotmail.co.uk** | **(1)** |
| GWEFAN | **www.ysgolgymraegllundain.ik.org** | **(1)** |
| DYDDIAD DECHRAU'R YSGOL | **1958** | **(1)** |
| ENW'R PENNAETH | **Mrs Menna George** | **(1)** |
| NIFER YR ATHRAWON | **3 / tri / 2 llawn amser ac un rhan-amser** | **(1)** |
| LLIWIAU'R WISG YSGOL | **Coch, gwyrdd / werdd a llwyd – rhaid cael 2** | **(1)** |
| BWYD YSGOL | **Amser Cinio: Does dim cegin / Pawb yn dod â bocs bwyd**<br><br>**Amser Egwyl: Staff yn annog plant i fwyta ffrwythau / yfed dŵr** | **(2)**<br><br>**(2)** |
| CLYBIAU | **Clwb Hamddena**<br>**Clwb Celf** | **(1)**<br>**(1)** |

(ii) Anfon e-bost at Bennaeth Ysgol Gymraeg Llundain **10 marc**

- Cyfarchiad ac esbonio pwy ydych chi **(1 marc)**
- sôn am eich gwaith ymchwil **(2 farc)**
- mynegi barn ar amcanion yr ysgol **(3 marc)**
- gofyn dau gwestiwn am yr ysgol **1 marc yr un (2 farc)**
- cloi yn effeithiol e.e. os oes problem cysylltwch **(2 farc)** yr eiddoch yn gywir **(1 marc)**

**Mynegiant (6 marc)**

Rhan (ii) yn unig

1 marc am bob brawddeg gywir.

**Ni ellir gwobrwyo marciau mynegiant am gynnwys amherthnasol.**

© WJEC CBAC Ltd.

**C.4 Ysgrifennu**

**Ysgrifennu erthygl fer** **30 marc**

**Cynnwys 15 marc**

Gwobrwyir:

– ymatebion diddorol a chymwys
– dilyniant rhesymegol a strwythur amlwg
– barn bendant a synhwyrol
– ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
– ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

- Cyflwyno eich hunan a'r rheswm dros ysgrifennu **(hyd at 2 farc)**
- cyflwyno'r ardal **(hyd at 3 marc)**
- sôn am atyniadau a'r gweithgareddau posibl yn yr ardal **(hyd at 4 marc)**
- trafod manteision gwyliau yn yr ardal **(hyd at 4 marc)**
- gorffen yr erthygl yn briodol e.e. cynnig arbennig **(hyd at 2 farc)**

© WJEC CBAC Ltd.

**Mynegiant 15 marc**

Gwobrwyir:

– y gallu i gyfleu syniadau a mynegi barn yn llwyddiannus
– y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
– geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
– cywirdeb ac ymdrech i gynnal cysondeb o ran amserau'r ferf
– ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b
– ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau

| | |
|---|---|
| 13 – 15 | Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Syniadau a barn aeddfed. Elfen gref o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. |
| 10 – 12 | Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Llawer o syniadau. Elfen gref o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| 7 – 9 | Mynegiant derbyniol ac ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac ymdrech i gyfathrebu'n ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb iaith ond peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Tueddiad i gadw at y disgwyliadwy. |
| 4 – 6 | Yn is na'r canolig – yn defnyddio rhai patrymau brawddegol sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau a pheth anhawster wrth fynegi barn. |
| 1 – 3 | Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn. |
| 0 | Dim i'w wobrwyo. |

**Ni ellir gwobrwyo marc mynegiant sy’n uwch na’r marc cynnwys**



© WJEC CBAC Ltd.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Rhif Ffôn  029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.